

Cyfarfod Prifysgol Dementia Gyfeillgar

1af Mawrth 2022, 2:00yp, Zoom

Presennol: Catrin Hedd Jones – Cadeirydd (CHJ), Gill Windle (GW), Jen Roberts (JR), Ian Davies-Abbott (ID-A), Maria Caulfield (MC), Chris Roberts (CR), Jayne Goodrick (JG), Maris Stewart-Parker (MS-P), Gethin Jones (GJ), Iwan Williams (IW), Gwenllian Hughes (GH), Mared Huws (MH), Katie Tew (KT), IS - nodiadau.

Ymddiheuriadau: Patri Masterson-Algar, Teresa Davies, Glenda Roberts, Lindsay Jones, Sharon Roberts, Ronnie Dean, Michelle Durrant.

Eitem	Sgwrs	Gweithred
1.	Croeso, Ymddiheuriadau a Chofnodion y cyfarfod diwethaf 22/06/2021:	
a/	Croesawodd CHJ bawb i'r cyfarfod. Anfonodd dymuniadau gorau at y rhai nad oedd yn gallu mynychu.	
b/	Cofnodwyd ymddiheuriadau.	
c/	<p><i>Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:</i></p> <ul style="list-style-type: none">• Adroddodd MH eu bod wedi gobeithio gwneud pethau'n syth ar ôl Serendipity, ond daeth yn gyfnod anodd o ran cynnal digwyddiadau yn Pontio. Cynhaliwyd gweithgareddau dros y misoedd diwethaf gyda Gweithredu dros Blant gyda'u Gofalwyr Ifanc. Cynhelir Serendipity eleni ar 21 a 22 Medi.• Adroddodd MC fod gan y Gwasanaeth Cwnsela gyfeiriad e-bost lles generig i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw gwnsela / adnoddau / cymorth pellach, gall siarad ag un o'r cynghorwyr o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr am gefnogaeth sydd ei angen.• Adroddodd KT am y Grŵp Gofalwyr, ei chael yn anodd cynnal cyfarfod, nid maes y maent wedi gallu canolbwyntio arno, ond rhywbeth y mae angen iddynt wneud mwy ohono.• Mae'r Brifysgol yn mynd i allu cynnal Cwrs Preswyl i Ofalwyr Ifanc yn ystod y mis nesaf, gyda'r gobaith o godi ymwybyddiaeth a chefnogi gofalwyr sydd efallai'n dewis dod i'r Brifysgol yn y dyfodol. Mae myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu wedi'u nodi fel grŵp blaenoriaeth yn y strategaeth ehangu mynediad newydd.• Adroddodd GW ei bod mewn cysylltiad â Mel ynglŷn a'r gwaith gwledig. <p>Derbynnir y cofnodion fel cofnod cywir. IS i'w atodi at y dudalen we.</p>	IS
2.	Diweddariadau:	
a/	<p>Caban:</p> <p>Rhannodd CHJ sleidiau a ddefnyddiwyd yn y lansiad Mai 2019; a diweddarau ar gweithgareddau Caban dros y flwyddyn diwethaf.</p> <p>Mae mab RD wedi recordio dogfennol yn cofnodi ei ymdrechion o redeg can cilomedr mewn diwrnod er budd Ymchwil Alzheimer y DU. Linc i'r rhaglen.</p>	

Eitem	Sgwrs	Gweithred
	<p>Mae Gethin Jones (Darlithydd yn Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd) wedi cwblhau'r cwrs Hyrwyddwyr Dementia. Rydym wedi colli dwy Pencampwyr Dementia, mae angen cynyddu nifer yn y Brifysgol.</p> <p>Rhoddodd GJ diweddariad ar y datblygiad o rhagor o wybodaeth am dementia o fewn y cwricwlwm. Yn gwneud rhaglen meistr trwy ymchwil ar hyn o bryd, yn edrych ar hyfforddiant dementia rhag-gofrestru. Ers i'r cwricwlwm ddechrau mae dau sesiwn wedi cael ei gynnal gyda'r grŵp Caban o gwmpas dysgu cynnal sesiwn Ffrindiau Dementia. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ail-cysylltu efo myfyrwyr.</p> <p>Soniodd IDA am mewnbwn Caban i'r Rhwydwaith Dementia o fewn sefydliadau Addysg Uwch, sef casgliad o Brifysgolion ar draws y DU sydd yn edrych ar darpariaeth addysg dementia mewn rhaglenni israddedig/ôl-raddedig. Roedd grŵp Caban yn allweddol i'r weledigaeth, cynhaliwyd gweithdy yn edrych ar y strategaeth dementia o safbwynt addysg uwch. Linc i'r ddogfen.</p>	
b/	Cyfyngau cymdeithasol:	
	<p>Mae'r niferoedd yn isel a byddwn yn gwerthfawrogi syniadau ar sut i gynyddu'r rhifau. Roedd gennym dri myfyriwr yn gwirfoddoli wrth arwain ar ochr y Cyfyngau Cymdeithasol, pob un yn cymryd llwyfan. Angen ail-edrych ar sut i gefnogi ac annog mwy. Mae'r gweithgaredd ar hyn wedi dod i ben ers iddynt roi'r gorau i wirfoddoli, mae angen gwaith i ail-ysgogi hyn. Bellach mae gennym dri llwyfan: Twitter, Facebook ac Instagram.</p> <p>Oedd KT yn meddwl y byddai myfyrwyr yn awyddus i goladu'r wybodaeth am ein gwaith. Neith KT edrych i weld pwy fyddai â ddi-ddordeb er mwyn symud hyn ymlaen.</p>	KT
c/	Pontio:	
	CHJ i holi am diweddariad.	CHJ
d/	Undeb y Myfyrwyr:	
	<p>Ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi roedd grŵp yn canu yng Nghaffi Hafan, ac yn dilyn ymdrech mae ganddyn nhw wirfoddolwyr newydd yno. Yn awyddus i'r holl wirfoddolwyr sy'n gwneud y te partis neu'r teithiau awyr agored cael hyfforddiant Ffrindiau Dementia. Byddai'n dda cael dyddiad yn y dyddiadur.</p> <p>Wedi cynnal Te Parti Dydd Gŵyl Dewi ddoe, cawsant gantorion, chwarae bingo, addurno bisgedi. Cyfle i fyfyrwyr a'r holl ymwelwyr sgwrsio a dod i adnabod ei gilydd.</p> <p><i>Prosiect plant:</i> gwneud cardiau i bawb, aml-genhedlaeth gyda gwirfoddolwyr a phlant a'r bobl hŷn a allai ymweld.</p> <p><i>Teithiau awyr agored:</i> roedd dau ddyddiad yn y dyddiadur, llanwyd y rhain yn gyflym, am ceisio ychwanegu mwy o ddyddiadau.</p> <p><i>Hyfforddiant Dementia:</i> cynhaliwyd rhai cyn y Nadolig, yn awyddus i wneud mwy gyda myfyrwyr a staff.</p>	KT/CHJ

Eitem	Sgwrs	Gweithred
	<p>Prosiectau Garddio yn Nhreborth a'r Gerddi Iachau, y camau nesaf yw ceisio cael aelodau o'r gymuned i wneud sesiynau garddio. Os oes gan unrhyw un cysylltiadau dylent cysylltu â KT.</p> <p>Mae Sesiynau Celf a Chrefft yn mynd i gael eu cynnal yng Nghaffi Hafan.</p> <p>Holodd CHJ gydag IW a fyddai cyfleoedd i gysylltu mwy gyda'r myfyrwyr sy'n gweithio yng Nghaffi Hafan. Roedd IW yn meddwl y byddent yn agored i gydweithio.</p> <p><i>Gwaith ar Barc y Coleg:</i> Cynllun o ddyluniad bras o sut olwg fydd ar Barc y Coleg – yn ansicr a oes modd ei addasu. Credai GW y byddai'n werth gofyn rwan beth yw eu cynlluniau hygyrchedd. MC i cysylltu â Lars.</p> <p>Dywedodd KT fod ganddi gyfarfod ddydd Llun am Barc y Coleg ac y bydd yn ei godi bryd hynny. Mae IW hefyd yn yr un cyfarfod a bydd hefyd yn gwneud ymholiadau.</p>	<p>Pawb</p> <p>MC KT IW</p>
e/	<i>Cymdeithas Alzheimer:</i>	
	<p>Mae'r broses yn dal i fod yr un fath o ran cydnabod yr hyn a gyflawnodd y Brifysgol ac yr oedd yn gweithio tuag ato. Nid yw'n gweld problem gydag adnewyddu, mae'n rhywbeth y gellir ei wneud yn eithaf cyflym gyda'r asesiad blynyddol.</p> <p>Mae'r ffordd y mae DF a DFC yn cael eu gweinyddu yn Lloegr wedi newid, peth cyfathrebu diweddar am y rôl yn newid o 'Hyrwyddwr' i 'Llysgennad Cyfeillion Dementia' a gofyniadau gwahanol am y rôl honno.</p> <p>Wythnos Gweithredu ar Dementia 16 – 22 Mai, thema yw 'Diagnosis'. Mwy i ddilyn o ran cymorth neu becynnau ynghylch Wythnos Gweithredu ar Dementia pe bai eu hangen.</p> <p>Yn gweithio efo Laura Braithwaite-Stewart (myfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Bangor) i lunio llwybr dementia i weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd hefyd yn bwydo i mewn i'r gwaith ymyrraeth gynnar: https://aagic.gig.cymru/cefnogaeth/qist/cymrodoriaeth-hyfforddiant-arweinyddiaeth-glinigol-cymru-wcltf/dewch-i-gwrdd-ar-cymrodyr-arweinyddiaeth/</p> <p>Llawer o newidiadau yn y Gymdeithas, oherwydd COVID, tîm llawer llai yng Nghymru.</p> <p>Cynhadledd ar 7 Mehefin yn Wrecsam. Thema: Diagnosis. Mi fydd GW yn cyflwyno. Linc i safle we y gynhadledd.</p> <p>Fel grŵp llywio mi fyddai'n dda cael mwy o Bencampwyr Dementia, Lindsay ydi'r unig person yng Nghymru all neud hyn – ar-lein ar hyn o bryd, fyddai rhaid cadarnhau argaeledd yn uniongyrchol gyda Lindsay.</p> <p>Mae myfyrwyr sy'n cwblhau hyfforddiant Ffrind Dementia neu Hyrwyddwr wedi cael Credydau Cyflogadwyedd, mae angen gwirio hyn gan fod Cyflogadwyedd</p>	

Eitem	Sgwrs	Gweithred
	Bangor wedi newid: https://www.bangor.ac.uk/skills-and-employability/current-students.php.cy	
3.	Adolygu Cynnydd yn Erbyn Cynllun Gweithredu:	
	<p><i>Gweithredoedd/Llwyddiannau Cymunedol:</i> ychwanegu fod JR ac IDA yn cynnal Cefnogaeth Dementia Prin ar draws Cymru. CHJ i ychwanegu i'r rhestr gweithredoedd.</p> <p><i>Wythnos Gweithredu ar Dementia:</i> IDA yn bwriadu gwneud gig i elusen, wedi ei ail drefnu i 21ain Mai.</p> <p>Tybiodd KT a allai'r mabolgampau fynd yn ei flaen yr wythnos honno, a hefyd gwneud Taith Awyr Agored ychwanegol. Neith KT gwneud ymholiadau gyda'r gwirfoddolwyr a wedyn cysylltu efo CHJ. Roedd MC yn meddwl bod Sam Wallwork dal yn y rôl Rheolwr yng Nghanolfan Brailsford.</p> <p>Mae'r swyddog oedd yn trefnu prynhawn Cacen a Chan wedi gadael Pontio. Mae Emyr Williams, Cydlynnydd y sinema, yn awyddus i barhau efo hyn yn y sinema, efallai gweithio ar rhywbeth ar gyfer Wythnos Gweithredu ar Dementia. Mae cysylltiad efo Age Cymru Gwynedd a Môn yn Bontnewydd; a pherthynas gyda grŵp sy'n cyfarfod yn Biwmares, felly mae'r gynulleidfa yna yn barod.</p> <p>Tybiodd MH os oedd gan KT adran o fewn y gwirfoddolwyr, e.e. grŵp perfformio, efallai byddant yn gallu rhoi perfformiad a wedyn y ffilm. Awgrymodd KT sesiwn cerdd / côr. MH i cysylltu efo Emyr a KT yn dilyn y cyfarfod yma i weld beth fyddant yn gallu gwneud ar gyfer Wythnos Gweithredu ar Dementia. Linc i rhai delweddau o'r digwyddiad.</p> <p>MC i gydlynu â grŵp Caban i ddod a nhw at ei gilydd; ac hefyd gweithio â MH a KT i gwahodd aelodau Caban i'r digwyddiad yn Pontio.</p>	<p>CHJ</p> <p>KT</p> <p>MH</p> <p>MC</p>
4.	Ethol Swyddogion:	
	Cynigodd JR cymryd rôl y Cadeirydd o mis Awst 2022. Cytunwyd y byddai CHJ a JR yn rhannu'r Gadair am weddill y flwyddyn hon.	
5.	Unrhyw fater arall:	
a/	Diolchwyd CHJ i'r Cyfieithwyr o Ganolfan Bedwyr am fynychu'r cyfarfod heddiw.	
b/	<p><i>Dawns ar gyfer Parkinson's:</i> yn cael ei redeg ar y cyd â'r English National Ballet a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Peth anhawster cyrraedd yr unigolion a fyddai'n elwa, felly os oes gan unrhyw un gysylltiadau, neu diddordeb dylent gysylltu MH. Mae hefyd yn agored i bobl sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda Parkinson's.</p> <p>Mae gwybodaeth ar wefan Pontio, nhw yw'r unig le i'w gynnig yn y Gymraeg. Bydd MH yn gofyn i'r tîm marchnata anfon y wybodaeth at CHJ & IS fel y gellir ei rhannu gyda'r grŵp.</p> <p>Gallai ychwanegu'r wybodaeth at dudalen Facebook Rhwydwaith Dementia Gogledd Cymru.</p>	<p>Pawb</p> <p>MH</p>

Eitem	Sgwrs	Gweithred
	Gall MP-S drosglwyddo gwybodaeth i Gynghorydd Dementia a Gweithwyr Cymorth Dementia sy'n cefnogi pobl â dementia sy'n gysylltiedig â Parkinson's a hefyd y Gwasanaethau Asesu Cof.	
c/	<p>Mae'r Brifysgol wedi newid llawer yn ystod yr amser rydym wedi bod yn rhedeg y Cynllun. Darparwyd sesiwn Ymwybyddiaeth o Dementia i staff a'r Tîm Gweithredol, ac mae wedi bod yn bwysig bod y Brifysgol yn cefnogi'r gwaith hwn.</p> <p>Mae Iwan Williams wedi ymuno â'r Brifysgol yn ddiweddar fel Uwch Swyddog y Genhadaeth Ddinesig. Yn ymwneud â chyfathrebu rhwng y Brifysgol a'r Gymuned a sut mae'r Brifysgol yn cyfrannu at y nodau llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae strategaeth yn cael ei gweithio arni a fydd yn gyrru'r amcanion a'r amserlen waith ymlaen dros y misoedd / blynyddoedd nesaf. Holodd CHJ os oedd y strategaeth yn cynnwys gwaith y grŵp llywio a'r Brifysgol yn gweithio tuag at ddod yn Dementia Gyfeillgar. Byddai cyfle i fwydo i mewn i hyn.</p> <p>Linc i Strategaeth Ymgysylltiad Dinesig Prifysgol Bangor.</p>	
d/	<i>Time for Dementia:</i> Cynllun yw hwn dan gefnogaeth y Gymdeithas Alzheimer lle mae myfyrwyr yn ymuno â theuluoedd sy'n byw gyda dementia a'u dilyn am flwyddyn, roddodd Maris grynodedb o'r cynllun. Gall Michaela Morris neu Rebecca Hanmer (ICC) rhoi rhagor o wybodaeth. IDA a CHJ i trafod gyda GJ os fyddai'n gweithio ym Mangor.	IDA/CHJ
6.	Dyddiad y cyfarfod nesaf:	
	Dydd Llun, 26 Medi 2022 am 3:00yp trwy Zoom	
DIWEDD Y CYFARFOD		